

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r  
Blynyddoedd Cynnar / Prif Weithredwr GIG Cymru**

**Director General Health, Social Care & Early Years Group / NHS  
Wales Chief Executive**



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

Russell George AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

17 Mehefin 2024

Annwyl Russell

**Gofal a gynlluniwyd ac amseroedd aros**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Mai yn ceisio gwybodaeth am nifer o bwyntiau yn ymwneud â chynllun Llywodraeth Cymru i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros.

Y cyd-destun

Cafodd Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2024-27 ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023. Mae'n cynnwys cyfarwyddiadau blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol i'r GIG yng Nghymru ac mae'n rhoi arweiniad i sefydliadau ynghylch llunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Un o flaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet yn y Fframwaith Cynllunio presennol hwn yw gofal a gynlluniwyd. Mae'n ofynnol felly i sefydliadau'r GIG amlinellu'n fanwl eu hymrwymadau cyflawni i wella perfformiad yn y maes hwn. Mae disgwyl iddynt hefyd fanylu ar eu cynlluniau i "gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i weithio'n rhanbarthol."

Cyflwynodd sefydliadau'r GIG gynlluniau wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024. Mae'r cynlluniau wrthi'n cael eu hadolygu i sicrhau bod ymrwymadau perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni. Cafodd y cynlluniau eu hailgyflwyno erbyn 31 Mai 2024.

O ran enghraifft o ddisgwyliadau cenedlaethol uniongyrchol ynghylch gweithio'n rhanbarthol, ysgrifennais i ac Ysgrifennydd y Cabinet i Fyrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bae Abertawe ar 19 Mawrth 2024. Roedd y llythyr yn cynnwys cyfarwyddiadau o dan bwerau Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 12(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd

Gwladol (Cymru) 2006 i gyfarwyddo'r ddau fwrdd iechyd i sefydlu Cyd-bwyllgor. Y bwriad yw cryfhau trefniadau i gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd ar sail ranbarthol pan fo'n briodol gwneud hynny er mwyn sicrhau parhad diogelwch, ansawdd a hyfywedd parhaus gwasanaethau. Y disgwyl yw y bydd y Cyd-bwyllgor yn cael ei sefydlu'n ffurfiol yn ystod Chwarter 3 y flwyddyn ariannol hon.

### Sut mae'r Weithrediaeth yn hwyluso trefniadau i gydweithio'n rhanbarthol.

Fel y nodir uchod, rôl Ysgrifennydd y Cabinet a swyddogion Llywodraeth Cymru yw gosod y cyfeiriad polisi a darparu cyd-destun cenedlaethol ar gyfer trefniadau cynllunio'r GIG. Mae hyn yn cynnwys datblygu gweithio'n rhanbarthol.

Rôl Gweithrediaeth y GIG yw helpu sefydliadau'r GIG i ddatblygu eu cynlluniau gweithredu drwy drefniadau clinigol a rheolaethol. Mae'r cymorth hwn yn seiliedig ar ddylunio llwybrau clinigol ac arferion da cydnabyddedig megis egwyddorion y rhaglen Cael Pethau'n lawn y Tro Cyntaf (GiRFT), yn ogystal ag adolygu breuder gwasanaethau i ddatblygu manylebau gwasanaethau rhanbarthol er mwyn meithrin cynaliadwyedd.

Isod, ceir tri maes ffocws ar gyfer datblygiadau rhanbarthol y mae Gweithrediaeth y GIG yn eu cefnogi:

#### 1.Gwasanaethau cancer rhanbarthol

Mae'r rhwydwaith cancer a thîm gwella cancer Gweithrediaeth y GIG wedi datblygu modelau gwasanaeth rhanbarthol a chenedlaethol i gynnal gwasanaethau bregus ledled Cymru, ac ysgogi gwelliant o safbwynt dulliau trin cancer pan fo pryderon o ran cynaliadwyedd gwasanaethau.

Nodir bod dau o'r pedwar dull triniaeth ar gyfer cancer eisoes wedi'u rhanbartholi'n llawn – radiotherapi a therapi gwrth-ganser systemig (SACT). Mae'r trydydd dull sy'n ymwneud â llawdriniaethau yn faes lle mae gweithio'n rhanbarthol eisoes wedi'i sefydlu, ac mae rhagor o dan ystyriaeth, yn ddibynnol ar eu cynaliadwyedd yn y tymor hir. Mae'r rhain yn cynnwys llawdriniaethau thorasig, hepato-pancreato-bustlaidd ac oesoffagaidd. Nid yw'r rhan fwyaf o ofal lliniarol yn addas ar gyfer ei weithredu yn rhanbarthol oherwydd y gofynion sydd arno i gyflawni'n lleol.

Mae modelau cyflawni rhanbarthol eraill yn ymwneud â radiofferylliaeth, PET-CT, a chanserau pediatrig.

Mae'r rhwydwaith hefyd wedi ymwneud â sicrhau bod amseroedd aros ar draws byrddau iechyd yn gyfartal, er enghraifft:

Sefydlu rhestrau a rennir ar gyfer cancer y fron rhwng Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro i leihau'r gwahaniaeth o ran amseroedd aros rhwng y ddau fwrdd iechyd cyfagos.

#### 2.Gwasanaethau diagnostig rhanbarthol

Drwy'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer diagnosteg, mae grŵp gwella diagnosteg Gweithrediaeth y GIG yn darparu'r cylch gwaith a'r arweinyddiaeth weithredol i helpu byrddau iechyd i ddatblygu a chytuno ar gynlluniau diagnostig rhanbarthol. Caiff hyn ei amlygu yn benodol o dan yr adran ar drawsnewid yn y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer diagnosteg.

Nod y strategaeth yw:

- Creu modelau cenedlaethol neu ranbarthol ar gyfer gwasanaethau bregus gan gydgyrnhoi rhai gwasanaethau er mwyn gwella diogelwch, cyfraddau prosesu ac effeithlonrwydd.
- Symud diagnosteg lai cymhleth yn nes at ofal sylfaenol a chymunedol.
- Gweithredu cynllunio cenedlaethol ar gyfer darpariaeth ddelweddu gymhleth fel PET-CT.

### 3. Triniaethau rhanbarthol

Yn y cynllun adfer gofal a gynlluniwyd, mae disgwyliad clir i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau rhanbarthol ar gyfer ymyriadau niferus a llai cymhleth. Y ddau arbenigedd cydnabyddedig sy'n ymdrin â llawer o achosion yw orthopedeg ac offthalmoleg.

Mae gan bob un o'r tri rhwydwaith rhanbarthol – y Gogledd, y De-ddwyrain a'r De-orllewin – gynlluniau rhanbarthol ar wahanol gyfnodau o aeddfedrwydd ar gyfer y ddau arbenigedd triniaeth hyn.

Yn y De-orllewin, gyda chymorth Gweithrediaeth y GIG, mae gwasanaethau orthopedig ar draws y ddau fwrdd iechyd wedi bod yn ystyried sut y gallant gydweithio'n effeithiol gan rannu adnoddau theatr ar draws eu rhanbarth. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ysgogi yn glinigol ac mae'n cael ei ategu gan y cynllun strategol cenedlaethol ar gyfer orthopedeg sy'n rhoi canllawiau ar ba wasanaethau sy'n addas ar gyfer gweithio'n rhanbarthol a sut i'w gwneud yn addas ar gyfer hynny.

Mae gwaith cychwynol eisoes ar waith ar gyfer nodi opsiynau triniaeth cleifion sy'n cael eu darparu yn seiliedig ar angen clinigol a mathau o adfer ar ôl llawdriniaethau. Y nod yw sicrhau bod arosiadau yn gyfartal, a'u lleihau, drwy ddefnyddio'r amrywiaeth o adnoddau ar draws y ddau fwrdd iechyd.

Gall yr opsiynau o ran triniaethau a'r gofynion gofal ar ôl llawdriniaethau amrywio yn ddibynnol ar asesiad cleifion unigol gan arwain at ystod o ofynion gan wasanaethau. Yn hytrach na dyblygu pob lefel o ofal yn y ddau fwrdd iechyd, mae dull rhanbarthol yn caniatáu i'r holl adnoddau ar draws y ddau fwrdd iechyd gael eu hasesu fel un adnodd cyfan. Drwy gymorth canllawiau clinigol a gwaith y strategaeth genedlaethol ar gyfer orthopedeg, mae'r adnodd rhanbarthol cyfan hwn wedi'i asesu ac wedi'i ddefnyddio i nodi lle dylid rhoi triniaethau a'u gofynion gofal ar ôl llawdriniaethau ar waith. Mae'r ymarfer hwn wedi dangos sut y mae'r defnydd wedi'i dargedu o adnoddau sy'n seiliedig ar angen clinigol yn hytrach na daearyddiaeth yn galluogi defnydd mwy effeithiol o adnoddau gan geisio sicrhau bod amseroedd aros yn gyfartal o ran angen clinigol a hyd arosiadau. Mae trefniadau llywodraethiant terfynol a safonau clinigol ar gyfer gweithdrefnau gweithredu yn cael eu cwblhau i ategu'r model newydd hwn a fydd yn cael ei roi ar waith fesul cam yn ystod 2024-25. Mae cyllid gwerth £18 miliwn wedi'i roi i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddatblygu Castell-nedd Port Talbot yn ganolfan ragoriaeth i gefnogi'r gwaith hwn.

Yn y Gogledd, mae Ysbyty Llandudno wedi'i nodi fel safle orthopedig rhanbarthol i ddarparu triniaethau pwrpasol mewn man sydd wedi'i warchod i gynyddu'r capasiti sydd ar gael ar hyd y flwyddyn gyfan. Mae cyllid cyfalaf gwerth £29.4 miliwn wedi'i ddyrannu i gefnogi'r cynllun hwn.

Yn y De-ddwyrain, mae theatr offthalmoleg symudol yng Nghaerdydd wedi'i defnyddio i roi triniaeth i drigolion ar draws y rhanbarth, o ardaloedd Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac Aneurin Bevan. Cafodd hyn ei ariannu gan eu cyfranddaliadau buddsoddi rhanbarthol ar gyfer y De-ddwyrain fel yr amlygir isod.

### Sut y mae'n helpu byrddau iechyd i fynd i'r afael â chyfnodau aros hir mewn meysydd arbenigol a rhanbarthau penodol

Ym mis Mai 2024, anfonodd Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, lythyr i'r Byrddau Iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonynt ddatblygu cynllun effeithlonrwydd a chynhyrchiant sy'n canolbwyntio ar ofal a gynlluniwyd. Y nod yw dangos sut y gallant, drwy gynhyrchiant ychwanegol, gynyddu capasiti i gyflawni eu llwybrau gwella unigol i gyflawni'r ymrwymadau cenedlaethol ar gyfer gofal a gynlluniwyd.

Rôl Gweithrediaeth y GIG yw gweithio gyda phob bwrdd iechyd i nodi a datblygu eu cyfleoedd gwella i ategu eu cynlluniau lleol. Mae'r cyfleoedd hyn yn seiliedig ar nifer o brosiectau cenedlaethol allweddol sy'n cynnwys:

- Ailddylunio llwybrau atgyfeirio gyda chlinigwyr gofal sylfaenol a gofal eilaidd ar y cyd, gan gytuno ar lwybrau atgyfeirio priodol, a'r defnydd o lwybrau syth at brofion pan fo hynny'n briodol yn glinigol.
- Ailddylunio gwasanaethau cleifion allanol gan sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ar gyfer adolygiadau newydd a dilynol, yn ogystal â'r defnydd o'r tîm amlddisgyblaethol i gynyddu capasiti ac effeithiolrwydd yr adnoddau.
- Cynhyrchiant theatrau a fydd yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnodd gwerthfawr hwn gan adeiladu ar drefniadau adolygu a data'r rhaglen Cael Pethau'n lawn y Tro Cyntaf (GiRFT).
- Gweithredu argymhellion GiRFT. Bydd disgwyl i bob bwrdd iechyd gyflawni yn erbyn eu hargymhellion lleol y cytunwyd arnynt gan bob un o'r gwasanaethau sydd wedi'u hadolygu yn genedlaethol, sef offthalmoleg, orthopedeg, wroleg a gynaecoleg.
- Llwybrau gofal eilaidd y cytunwyd arnynt yn glinigol i feithrin cysondeb cenedlaethol a phrosesau effeithiol o ran llwybrau â llawer o achosion, nad ydynt yn rhai aciwt, ar draws arbenigeddau heriol.

Wedi hynny, bydd Gweithrediaeth y GIG yn rhoi adborth rheolaidd ac yn asesu cynnydd yn erbyn cynlluniau'r byrddau iechyd. Bydd yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio ym mhrosesau atebolrwydd Llywodraeth Cymru i fonitro gwaith cyflawni'r GIG.

### Gwybodaeth ariannol benodol am y modd y mae'n monitro cyllid ac adnoddau ychwanegol a ddyrennir i wasanaethau gofal iechyd i ehangu capasiti

Yn 2022, neilltuodd Llywodraeth Cymru gyllid adfer blynyddol gwerth £170 miliwn i helpu byrddau iechyd i adfer yn sgil effeithiau'r pandemig. Dyrannwyd yr adnoddau hyn i gynnal capasiti ychwanegol mewn gwasanaethau gofal a gynlluniwyd a gwasanaethau diagnosteg ac i annog gweithio'n rhanbarthol.

Mae'r rhan fwyaf o'r dyraniad hwn wedi'i roi i'r GIG i gynnal capasiti a gweithgarwch ychwanegol mewn gwasanaethau gofal a gynlluniwyd craidd ac ailadeiladu lefelau gweithgarwch i'r hyn yr oeddent cyn COVID.

Yn 2023/24, rhoddwyd £50 miliwn o'r buddsoddiad blynyddol rheolaidd ychwanegol mewn gofal a gynlluniwyd gwerth £170 miliwn ar gyfer dyraniadau rhanbarthol. Y rheswm dros hyn oedd y cydnabuwyd mai dim ond drwy fanteisio i'r eithaf ar adnoddau rhanbarthol y gellid cyflawni cynnydd pellach mewn lefelau gweithgarwch.

- Yn y De-orllewin, cafodd Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda £15.5 miliwn ar gyfer gwasanaethau orthopedig a £2.6 miliwn ar gyfer gwasanaethau diagnostig.
- Yn y De-ddwyrain, cafodd Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan a Chwm Taf Morgannwg £8.34 miliwn ar gyfer gwasanaethau diagnostig a £7 miliwn ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg.
- Yn y Gogledd, cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr £7.16 miliwn ar gyfer pum prosiect i gynnal gwaith dilysu a chynnal ei fodel cyflawni orthopedeg.

Comisiynwyd Gweithrediaeth y GIG gan Lywodraeth Cymru i asesu effaith y buddsoddiad hwn yn erbyn cyfres o feysydd ffocws y cytunwyd arnynt:

- Gwelliant o 15% o ran cau llwybrau aros hir a chyfraddau trin pawb yn eu tro.
- Canolbwyntio ar y rhai sy'n aros hiraf er mwyn ceisio dileu'r rhestrau aros dros dair blynedd o hyd.
- Canolbwyntio ar yr arbenigeddau hynny sydd â nifer bach o'r rhai sy'n aros yn hir er mwyn ceisio dileu rhestrau aros dros 104 o wythnosau ym mhob un ond y pum arbenigedd mwyaf heriol.
- Gweithredu argymhellion GiRFT yn llawn.
- Symud i restrau trin cleifion a darparu gwasanaethau yn rhanbarthol ar gyfer rhai gwasanaethau diagnostig ac arbenigeddau heriol.

Er bod cynnydd wedi'i nodi yn asesiad Gweithrediaeth y GIG, ni chyflawnwyd pob maes ffocws yn llawn, ac felly, mae'r gwaith o ddatblygu trefniadau monitro effeithlonrwydd a chynhyrchiant, y cyfeiriwyd ato uchod wedi'i ychwanegu at fodel atebolrwydd eleni.

Ystadegau ar nifer y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol a gyflogir, a manylion cyfarpar a chyfleusterau newydd

#### **ASTUDIAETH ACHOS – Datblygu'r Gweithlu Endosgopig Clinigol yng Nghymru**

Ledled y Deyrnas Unedig, mae'r galw am wasanaethau endosgopi wedi cynyddu'n flynyddol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynyddu capasiti theatrau endosgopi a nifer yr endosgopyddion. Yn draddodiadol, roedd endosgopyddion wedi'u hyfforddi'n feddygol, ond gall endosgopyddion clinigol (anfeddygol), wedi iddynt gael hyfforddiant priodol, gyflawni'r cymwyseddau gofynnol i gyflawni'r sgil gymhleth hon.

Yn 2018, mewn partneriaeth â Menter Canser Moondance a Phrifysgol Abertawe, cafodd cynllun peilot ei gynnal i ddangos effeithiolrwydd rhaglen hyfforddi ar gyfer Endosgopyddion Clinigol, gan ymgorffori cydrannau academaidd Lefel Meistr. Ar ôl amlygu llwyddiant y dull hwn, cytunodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru i barhau i ddarparu cymorth a chyllid ar gyfer y rhaglen, gan estyn gwahoddiadau blynyddol i bob Bwrdd Iechyd i enwebu darpar endosgopyddion clinigol i ymgeisio ar gyfer y rhaglen.

Bellach yn hyfforddi'r bumed garfan genedlaethol o endosgopyddion clinigol, mae'r fenter wedi dyblu nifer yr endosgopyddion clinigol sy'n ymdrin â rhestrau endosgopi yng Nghymru. Mae graddedigion y cwrs wedi datblygu eu rolau ymarfer uwch i weithredu fel Colonosgopyddion Sgrinio'r Coluddyn a dysgu sgiliau therapi craidd i wella eu gwerth ar gyfer eu Hunedau Endosgopi Iletyol. Mae'r Rhaglen Endosgopi Genedlaethol wedi gweithio gydag Uwch Arweinwyr Nyrsio i gytuno ar strwythur bandio Cymru Gyfan ar gyfer Endosgopyddion Clinigol i hwyluso prosesau recriwtio a chadw.

Yn 2023-24, penodwyd 6,128 o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol (y rhai y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â rheoleiddiwr gofal iechyd) i rolau ledled y GIG yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys 329 o weithwyr Proffesiynol Gwyddonol a Thechnegol Ychwanegol, 808 o weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, 170 o Wyddonwyr Gofal Iechyd, 2,138 o weithwyr Meddygol a Deintyddol a 2,683 o weithwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth.


Yn 2022-23, cyfanswm nifer y penodiadau o weithwyr proffesiynol gofal iechyd oedd 6,609.

Mae adnoddau cyfalaf hefyd wedi'u dyrannu i gefnogi'r rhaglen adfer. Er y gall defnyddio adnoddau cyfalaf gael effaith fwy tymor canolig, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rhaglenni cyfalaf diagnostig gwerth tua £95 miliwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf i feithrin capasiti a gallu yn y maes allweddol hwn o ran adfer gwasanaethau.

Yn y tabl isod, gweler y gwariant ariannol ar gyfleusterau diagnostig, a gaiff ei oruchwylio gan Raglen Ddiagnosteg Genedlaethol Gweithrediaeth y GIG.

Organisation	Funding allocated (m)	Spend included:
ABUHB	10,498	Gamma camera, Imaging equipment, Hysteroscopes
BCUHB	16,592	MRI upgrade, US, CT, Fluoroscopy, LAPB US machine
C&VUHB	14,183	Mobile MRI scanner upgrades, Endoscopy Decon
CTMUHB	10,174	US, CT, C-Arm, Imaging Academy equipment
HDUHB	19,865	US, CT, Fluoroscopy, Image Intensifiers
PtHB	0.120	Endoscopy Video Capture equipment
SBUHB	21,403	Gamma camera, CT, Fluoroscopy, MRI
Velindre	2,577	CT Sims, Imaging replacement
HEIW	0.554	Endoscopy Academy equipment

Yn gywir



**Judith Paget CBE**